



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU (GORCHMYNION INTERIM) 2018

Ebrill 2018

Mae tri math o ddogfen gyfreithiol yn ymdrin â gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheoleiddio cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol a rheoleiddio'u haddaswydd i ymarfer, sydd **oll** yn gymwys i gofrestriad y person cofrestredig a'i addaswydd i ymarfer:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**
- **Rheoliadau'r Cynulliad Cenedlaethol;**
- **Cyfes Gofal Cymdeithasol Cymru o Reolau Cofrestru a Rheolau Addaswydd i Ymarfer.**

Nid yw cynnwys y Ddeddf na'r Rheoliadau wedi'u cynnwys yn y Rheolau hyn. Felly, dylech ddarllen cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau ar y cyd â'r Rheolau i roi dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithdrefnau cofrestru ac addaswydd i ymarfer.

Mae'r Ddeddf ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh>

Y Rheoliadau yw:

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 fel y'u diwygiwyd gan Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2017

Mae'r rheolau ar gael yma: <https://gofalcymdeithasol.cymru/casgliadau/rheolau-gofal-cymdeithasol-cymru-2017>

Y mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 73(2) a (4) a 174(1)(b) ac (c) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“y Ddeddf”), Rheoliadau 26 a 37 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 fel y’u diwygiwyd a’r holl bwerau eraill sy’n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i’r perwyl hwnnw, ac yn sgil ymgynghori yn unol ag adran 75 y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Rheolau a ganlyn:

TREFNIANT Y RHEOLAU

RHAN I

RHAGARWEINIAD

- | | | |
|----|--|---|
| 1. | Enwi, cychwyn a threfniadau trosiannol | 5 |
| 2. | Dehongliad | 5 |

RHAN II

GORCHMYNION INTERIM

- | | | |
|----|-----------------------|---|
| 3. | Cwmpas a dehongliad | 8 |
| 4. | Dull cynnal achosion | 8 |
| 5. | Gwysion tystion | 8 |
| 6. | Cyfarfod rheoli achos | 8 |

RHAN III

GWRANDAWIADAU PANEL GORCHMYNION INTERIM

- | | | |
|-----|--|----|
| 7. | Hysbysiad o’r gwrandawriad | 10 |
| 8. | Gohirio’r gwrandawriad | 11 |
| 9. | Y weithdrefn mewn gwrandawriad panel gorchmynion interim | 11 |
| 10. | Tystiolaeth | 12 |
| 11. | Tystion | 12 |
| 12. | Mesurau arbennig | 13 |
| 13. | Gohirio’r gwrandawriad ar ei ganol | 13 |
| 14. | Pleidleisio | 13 |
| 15. | Trawsgrifiad o’r gwrandawriad | 13 |
| 16. | Achos heb wrandawriad | 13 |
| 17. | Y weithdrefn mewn cyfarfod | 14 |
| 18. | Hysbysiad o’r penderfyniad | 14 |

RHAN IV

GWRANDAWIADAU GORCHMYNION INTERIM ADDASRWYDD I YMARFER

19.	Hysbysiad o'r gwrandawriad	16
20.	Y weithdrefn mewn gwrandawriad gorchmynion interim panel addasrwydd i ymarfer	17
21.	Achos heb wrandawriad	18
22.	Y weithdrefn mewn cyfarfod	18

RHAN V

ADOLYGU GORCHMYNION INTERIM

23.	Hysbysiad o'r gwrandawriad	20
24.	Y weithdrefn mewn adolygiad gorchymyn interim	21

RHAN I

RHAGARWEINIAD

Enwi a chychwyn

1. (1) Caiff y Rheolau hyn eu henwi'n Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gorchmynion Interim) 2018 a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018.
- (2) Caiff Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gorchmynion Interim) 2017 ("Rheolau 2017") eu dirymu trwy hyn, ac eithrio y bydd Rheolau 2017 yn parhau'n gymwys mewn perthynas ag unrhyw wrandawiadau paneli gorchmynion interim neu wrandawiadau paneli gorchmynion interim addasrwydd i ymarfer a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2018 ond sydd heb eu cwblhau erbyn y dyddiad hwnnw.

Dehongliad

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni fynna'r cyd-destun fel arall:

ystyr "**Deddf**" yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "**Cyngor Gofal**" yw un o'r cyrff sy'n cadw cofrestr berthnasol fel y cyfeirir atynt yn adran 111(4) (b), (c) a (d) y Ddeddf;

ystyr "**achos**" yw:

- (a) achosion yn ymwneud ag achosion interim gerbron panel gorchmynion interim, neu
- (b) achosion gorchmynion interim gerbron panel addasrwydd i ymarfer;

ystyr "**cyfarfod rheoli achos**" yw cyfarfod cyn panel o un neu dri aelod panel, sy'n cael eu cynghori gan gynghorydd cyfreithiol, a sefydlwyd i gynnal cyfarfod rheoli achos o dan Ran II y Rheolau hyn;

ystyr "**rheolau trefniadaeth sifil**" yw rheolau'r llys a wneir o dan adran 2 Deddf Trefniadaeth Sifil 1997;

ystyr "**clerc**" yw'r sawl sy'n gyfrifol am y trefniadau gweinyddol ar gyfer y cyfarfod fel y'i diffinnir yn Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) 2017;

ystyr "**Cyfarwyddeb 2005/36/EC**" yw'r Gyfarwyddeb ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2013/55/EU yr Undeb Ewropeaidd;

mae "**cyflogwr**" yn cynnwys asiantaethau cyflogi, pobl hunangyflogedig ac unrhyw gyflogwr gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol (yn gweithio yn rhinwedd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol) y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwybod amdanynt;

ystyr "**gwrandawriad addasrwydd i ymarfer**" yw gwrandawriad gerbron panel addasrwydd i ymarfer mewn achos addasrwydd i ymarfer;

ystyr “**panel addaswydd i ymarfer**” yw panel a sefydlwyd gan Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) 2017 i:

- (a) wneud dyfarniadau mewn perthynas ag addaswydd personau sydd wedi eu cofrestru yn y gofrestr i ymarfer fel gweithwyr gofal cymdeithasol;
- (b) atal dros dro gofrestriad person yn y gofrestr neu i atodi amodau i'w gofrestriad wrth aros am ddyfarniad o'r math a grybwyllir ym mharagraff (a);

ystyr “**in camera**” yw yn absenoldeb y partïon a'u cynrychiolwyr, a'r cyhoedd;

ystyr “**gorchymyn cofrestru amodol interim**” yw gorchymyn interim sy'n gosod amodau ar gofrestriad person cofrestredig;

ystyr “**gorchymyn interim**” yw gorchymyn cofrestru amodol interim neu orchymyn atal dros dro interim;

ystyr “**gwrandawriad gorchmynion interim**” yw:

- (a) gwrandawriad gerbron panel gorchmynion interim mewn achos gorchmynion interim, neu
- (b) wrandawriad gerbron panel addaswydd i ymarfer mewn achos gorchmynion interim;

ystyr “**panel gorchmynion interim**” yw panel a sefydlwyd gan Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) 2017 sydd â'r pwerau i atal dros dro gofrestriad person yn y gofrestr neu i atodi amodau i'w gofrestriad wrth aros am ddyfarniad gan banel apelau cofrestru neu banel addaswydd i ymarfer;

ystyr “**achos gorchymyn interim**” yw achos gerbron panel gorchmynion interim y mae Pennod 4 neu Ran 6 y Ddeddf yn gymwys iddo:

ystyr “**gorchymyn atal dros dro interim**” yw gorchymyn sy'n atal dros dro gofrestriad person cofrestredig;

ystyr “**cynghorydd cyfreithiol**” yw unigolyn â chymhwyster cyffredinol deng mlynedd yn unol ag ystyr adran 71 Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990 sy'n gymwys i ymarfer y gyfraith yng Nghymru a Lloegr;

ystyr “**cynghorydd meddygol**” yw ymarferydd meddygol, wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Meddygaeth 1983, a benodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

ystyr “**hysbysiad**” yw gwybodaeth a ddyroddir yn ymwneud ag achos panel gorchmynion interim neu banel addaswydd i ymarfer;

ystyr “**panel**” yw panel gorchmynion interim neu banel addaswydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru, yn ôl y digwydd, a gyfansoddwyd yn unol ag adran 174 y Ddeddf, y dygir yr achos ger ei fron;

ystyr “**partïon**” yw'r person cofrestredig y mae'r achos gorchmynion interim yn ymwneud ag ef a Gofal Cymdeithasol Cymru (neu eu cynrychiolwyr);

ystyr “**cyflwynydd**” yw'r unigolyn sy'n gweithredu ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru mewn gwrandawriad gerbron panel, a gall gynnwys swyddog Gofal

Cymdeithasol Cymru neu gyfreithiwr neu fargyfreithiwr a benodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru at y diben hwn;

ystyr “**cofrestr**” yw'r gofrestr a gynhelir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 y Ddeddf;

ystyr “**person cofrestredig**” yw'r person cofrestredig y gwnaed yr atgyfeiriad i'r panel gorchmynion interim neu'r panel addasrwydd i ymarfer (yn ôl y digwydd) yn ei gylch;

ystyr “**cofrestriad**” yw'r cofnod ar y gofrestr sy'n ymwneud â pherson cofrestredig penodol;

ystyr “**panel apelau cofrestru**” yw panel a sefydlwyd gan Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) 2017 i wneud dyfarniadau o dan Ran 4 y Ddeddf mewn perthynas â chofrestru cychwynnol yn y gofrestr, aros arni ac adfer personau iddi;

ystyr “**corff rheoleiddiol**” yw corff yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall sy'n gyfrifol am reoleiddio, archwilio, arolygu, trwyddedu neu adolygu gofal cymdeithasol, darpariaeth iechyd neu ddarpariaeth addysg, neu reoleiddio neu drwyddedu proffesiwn gofal cymdeithasol, iechyd neu addysgu;

ystyr “**Gofal Cymdeithasol Cymru**” yw'r corff corfforaethol o'r enw Gofal Cymdeithasol Cymru, sef Cyngor Gofal Cymru yn flaenorol;

ystyr “**myfyriwr gwaith cymdeithasol**” yw:

(a) person sy'n cymryd rhan mewn cwrs a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf; neu

(b) person sy'n cymryd rhan mewn rhaglen gymhwysu mewn gwaith cymdeithasol rywle arall yn y Deyrnas Unedig, y mae Cyngor Gofal wedi'i chymeradwyo; neu

(c) person sy'n cymryd rhan mewn rhaglen gymhwysu mewn gwaith cymdeithasol y mae Cyngor Gofal wedi'i chymeradwyo ac yr ymgwymerir â rhan o'r rhaglen yng Nghymru,

sydd wedi neu sy'n dymuno cael ei gofrestru yn rhan gweithwyr cymdeithasol y gofrestr;

ystyr “**tribiwnlys**” yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf;

ystyr “**prifysgol**” yw'r brifysgol neu'r sefydliad addysg uwch sy'n darparu'r cwrs gradd a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf i bersonau sy'n dymuno dod yn weithwyr cymdeithasol.

(2) Yn y Rheolau hyn, oni fynna'r cyd-destun fel arall:

- (a) bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog a bydd geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
- (b) bydd unrhyw gyfeiriad at reol neu ran â rhif iddi yn gyfeiriad at y rheol neu'r rhan sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;
- (c) bydd unrhyw gyfeiriad mewn rheol neu ran at baragraff â rhif iddo, yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu'r rhan honno;

- (d) bydd unrhyw gyfeiriad mewn paragraff mewn rheol neu ran at is-baragraff â rhif iddo yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu'r rhan honno.

RHAN II

GORCHMYNION INTERIM

Cwmpas a dehongliad

3. (1) Mae Rhan III y rheolau hyn ('gwrandawiadau panel gorchmynion interim') yn gymwys pan fo mater wedi'i atgyfeirio i banel gorchmynion interim.
- (2) Mae Rhan IV y rheolau hyn ('gwrandawiadau gorchmynion interim addasrwydd i ymarfer') yn gymwys pan fo mater wedi'i atgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer, i'r achos gerbron y panel addasrwydd i ymarfer, neu'r rhan honno o'r achosion hynny y mae'r panel addasrwydd i ymarfer yn ystyried y canlynol ynddynt:
 - (a) p'un ai i wneud gorchymyn interim, neu
 - (b) adolygu gorchymyn interim.
- (3) Pan fo achos wedi'i atgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer, rhaid gwneud unrhyw orchymyn interim cyn i'r panel addasrwydd i ymarfer waredu'r mater yn unol ag adrannau 135 i 138 y Ddeddf.

Dull cynnal achosion

4. (1) Wrth ystyried p'un ai i wneud neu adolygu gorchymyn interim, bydd y panel gorchmynion interim a'r panel addasrwydd i ymarfer yn cynnal ei achosion yn unol â gofynion y Rheolau hyn a gofynion Rheoliadau GCC (Achosion gerbron Paneli) 2016.

Gwys tyst

5. (1) Pan fo un o'r partiön yn mynnu bod tyst yn bresennol, neu fod tyst yn cyflwyno tystiolaeth neu ddogfen berthnasol, a bod y tyst hwnnw wedi gwrthod bod yn bresennol neu wedi gwrthod cyflwyno'r ddogfen gerbron y gwrandawriad (neu wedi methu cadarnhau y bydd yn gwneud hynny), gall y parti wneud cais am gyfarwyddyd priodol y gellid ei ystyried mewn cyfarfod rheoli achos neu yng ngwrandawriad y panel gorchmynion interim neu wrandawriad gorchmynion interim addasrwydd i ymarfer.
- (2) Ar ôl ystyried sylwadau'r parti sy'n ceisio'r cyfarwyddyd ac unrhyw sylwadau gan y parti arall, bydd y panel yn penderfynu p'un a ddylid gwneud cyfarwyddyd sef y gall Gofal Cymdeithasol Cymru wneud cais i'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys i gyhoeddi gwys tyst yn unol â Rheol 34.4 Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998.
- (3) Wrth wneud dyfarniad, bydd y panel yn ystyried perthnasedd a phwysigrwydd tystiolaeth y tyst neu'r ddogfen dan sylw a ph'un a yw'n deg ac yn briodol gwneud y cyfarwyddyd y gofynnir amdano.
- (4) Pan wneir cyfarwyddyd, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwneud cais i'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys ac yn cael y gwys tyst briodol.

- (5) Pan fydd y cais am gyfarwyddyd ar gyfer gwŷs tyst wedi'i wneud gan Ofal Cymdeithasol Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru fydd yn trefnu cyflwyno'r wŷs i'r tyst dan sylw.
- (6) Oni chyfeirir fel arall, lle y gwnaed y cais am gyfarwyddyd gan neu ar ran y person cofrestredig, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu'r gwŷs tyst i'r person cofrestredig neu ei gynrychiolydd ar ôl i'r wŷs gael ei chyhoeddi a bydd y person cofrestredig neu ei gynrychiolydd yn trefnu cyflwyno'r wŷs i'r tyst dan sylw.
- (7) Oni chyfeirir fel arall, y parti sy'n cyflwyno'r gwŷs tyst fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw dreuliau teithio a/neu iawndal am golli amser fel y bo'n ofynnol o dan Reol 34.7 y Rheolau Trefniadaeth Sifil.

Cyfarfod rheoli achos

6. (1) Yn unol â chais gan un o'r partiön, gellir cynnull cyfarfod rheoli achos ar unrhyw adeg.
- (2) Ar ôl gwahodd sylwadau ysgrifenedig gan y ddau barti, bydd person wedi'i awdurdodi'n briodol yng Ngofal Cymdeithasol Cymru yn penderfynu a gynhelir cyfarfod rheoli achos ac, os felly, a ddylid ei gynnal ar sail y papurau yn unig, dros y ffôn, trwy fideo gynadledda, neu drwy gyfarfod llafar. Bydd y person a awdurdodir yn briodol yn gwneud trefniadau ac yn anfon hysbysiad priodol at y person cofrestredig a'i gynrychiolydd ac at y cyflwynydd o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod rheoli achos.
- (3) Bydd cyfarfod rheoli achos yn cynnwys un neu dri aelod panel ac yn cael cyngor gan gynghorydd cyfreithiol. Gellid defnyddio'r un aelod neu aelodau panel ar gyfer y panel gorchmynion interim neu'r panel addasrwydd i ymarfer, neu gellid defnyddio aelodau gwahanol.
- (4) Caiff y cyfarfod rheoli achos roi cyfarwyddydau at ddiben sicrhau achos a gynhelir yn gyfiawn, yn hwylus ac yn effeithiol, a chaiff wneud dyfarniad ynghylch mater rhagarweiniol y gall panel rheoli achos yn unig wneud dyfarniad yn ei gylch, gan gynnwys:
 - (a) a ddylid derbyn tystiolaeth benodol;
 - (b) a ddylid caniatáu i dyst neu dystion penodol roi tystiolaeth lafar mewn gwrandawriad gorchmynion interim;
 - (c) a ddylid trin tyst penodol yn un sydd angen mesurau arbennig ac, os felly, pa fesurau arbennig y dylid eu rhoi ar waith;
 - (d) a ddylid cynnal gwrandawriad ar y cyd yn ymwneud â dau berson cofrestredig neu fwy;
 - (e) a ddylid cynnal y gwrandawriad gorchmynion interim yn breifat neu'n gyhoeddus, yn unol â rheoliadau 22 neu 33 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016;
 - (f) a ddylai'r person cofrestredig gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad gorchmynion interim gan unigolyn heblaw am gyfreithiwr, cwmsler neu gynrychiolydd o gorff proffesiynol;
 - (g) a all yr achos gorchmynion interim gael ei gynnal heb wrandawriad pan fydd yr amgylchiadau yn rheoliadau 18(1) neu 30(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn gymwys;
 - (h) a ddylid cyhoeddi gwŷs tyst.

- (5) Y panel rheoli achos yn unig fydd yn penderfynu ar y weithdrefn yn y cyfarfod rheoli achos.
- (6) Cynhelir gwrandawriad rheoli achos yn breifat, oni bai bod y panel rheoli achos yn rhoi cyfarwyddyd fel arall.
- (7) Pan fydd parti yn methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddydau a roddir mewn cyfarfod rheoli achos, caiff panel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer, yn ôl y digwydd, ddod i'r cyfryw gasgliadau ag y bo'n eu hystyried yn briodol a/neu wneud pa benderfyniad bynnag sy'n fwyaf priodol yn ei dyb ef mewn perthynas â derbynoldeb tystiolaeth neu unrhyw fater perthnasol arall.

RHAN III

GWRANDAWIADAU PANEL GORCHMYNION INTERIM

Hysbysiad o'r gwrandawriad

7. (1) Pan fo achos yn cael ei atgyfeirio i banel gorchmynion interim o dan adrannau 94(3), 118(2)(b), 119(2) neu 125(2) y Ddeddf, anfonir hysbysiad at y person cofrestredig:
- (a) yn hysbysu'r person cofrestredig am yr hawl i fynychu'r gwrandawriad;
 - (b) yn hysbysu'r person cofrestredig am amser a lleoliad y gwrandawriad;
 - (c) yn rhoi datganiad byr i'r person cofrestredig o'r materion yr ymddengys eu bod yn codi'r cwestiwn:
 - (i) a ddylid atal dros dro gofrestrriad y person cofrestredig neu a ddylai'r cofrestrriad fod yn ddarostyngedig i amodau; a
 - (ii) pham mae angen camau o'r fath i amddiffyn aelodau'r cyhoedd neu er budd y cyhoedd fel arall neu er budd y person cofrestredig;
 - (d) yn hysbysu'r person cofrestredig o'r hawliau i roi tystiolaeth yn bersonol, i alw tystion ac i groesholi unrhyw dystion a elwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru;
 - (e) yn hysbysu'r person cofrestredig o'r hawl i wneud cyflwyniadau llafar i'r panel yn bersonol neu i gael ei gynrychioli gan:
 - (i) gyfreithiwr neu gwmsler; neu
 - (ii) gynrychiolydd o unrhyw sefydliad proffesiynol; neu
 - (iii) os yw'r panel yn cytuno, unrhyw berson arall;
 - (f) yn hysbysu'r person cofrestredig y bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn breifat oni bai bod y person cofrestredig yn gofyn bod y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus a bod y panel gorchmynion interim o'r farn na fyddai gwneud hynny yn groes i fudd y cyhoedd;
 - (g) yn hysbysu'r person cofrestredig bod yn rhaid anfon unrhyw gais i gael ei gynrychioli gan berson heblaw'r rhai sydd wedi'u rhestru ym mharagraff (e) uchod at y clerc heb fod yn hwyrach na 48 awr cyn gwrandawriad, yn amlinellu enw'r cynrychiolydd arfaethedig a chadarnhau na fydd y cynrychiolydd arfaethedig yn cael ei alw fel tyst;
 - (h) yn hysbysu'r person cofrestredig na chaiff person sy'n cynrychioli neu gynghori'r person cofrestredig roi tystiolaeth;
 - (i) yn hysbysu'r person cofrestredig y caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig heb fod yn hwyrach na 24 awr cyn dyddiad y gwrandawriad i'w hystyried gan y panel, os nad yw'n dymuno bod yn bresennol yn y gwrandawriad;
 - (j) yn hysbysu'r person cofrestredig am y canlyniadau posibl sydd ar gael i'r panel;
 - (k) yn gofyn am gadarnhad ynghylch a yw'r person cofrestredig yn bwriadu:
 - (i) mynychu'r gwrandawriad;
 - (ii) cael ei gynrychioli yn y gwrandawriad;
 - (iii) cyflwyno sylwadau ysgrifenedig;
 - (iv) gofyn am ddyfarnu ar y cais heb wrandawriad os bydd yr amgylchiadau yn rheoliad 30(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn gymwys;

- (l) yn amgáu copïau o unrhyw ddogfennau i'w rhoi gerbron y panel, gan gynnwys copi o'r Rheolau hyn.
- (2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4) isod, pan fo hysbysiad o wrandawriad o dan baragraff (2) yn cael ei ddyroddi, bydd cais am orchymyn interim yn cael gwrandawriad heb fod yn gynt na saith niwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad o'r gwrandawriad i'r person cofrestredig.
- (3) Caiff y panel hepgor gofynion paragraff (1)(g) neu (i) neu'r cyfnod hysbysu y cyfeirir ato ym mharagraff (2) os bydd y panel wedi'i fodloni bod y budd i'r cyhoedd yn mynnu cyfnod hysbysu byrrach.
- (4) Er paragraff (3) uchod, ni fydd y panel yn gosod gorchymyn interim ar gofrestrriad person cofrestredig heb roi hysbysiad o'r cyfryw fwriad i'r person cofrestredig yn gyntaf, fel y bo'n rhesymol yn holl amgylchiadau'r achos.

Gohirio'r gwrandawriad

- 8. (1) Pan fo'r naill barti neu'r llall yn dymuno i'r gwrandawriad gael ei ohirio, rhaid cyflwyno cais o'r fath yn ysgrifenedig i gadeirydd y panel.
- (2) Rhaid i'r parti sy'n gwneud y cais gyflwyno copi o'r cais i'r parti arall, ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol.
- (3) Caiff y parti y cyflwynwyd y cais iddo gyflwyno ymateb ysgrifenedig i gadeirydd y panel.
- (4) Bydd cadeirydd y panel yn ystyried y cais ac yn penderfynu arno, gan ystyried:
 - (a) cyflwyniadau'r ddau barti;
 - (b) unrhyw ragfarn debygol i'r naill barti neu'r llall;
 - (c) y budd i'r cyhoedd o waredu'r cais yn hwylus.
- (5) Os cytunir i'r cais i ohirio neu os bydd rhaid ad-drefnu'r mater am reswm arall, bydd y clerc yn rhoi gwybod i'r partion a'r achwynydd am ddyddiad newydd y gwrandawriad cyn gynted â phosibl.

Y weithdrefn mewn gwrandawriad panel gorchmynion interim

- 9. (1) Os na fydd y person cofrestredig yn bresennol ac os na chaiff ei gynrychioli yn y gwrandawriad, bydd y panel:
 - (a) yn gofyn am dystiolaeth bod hysbysiad o'r gwrandawriad wedi'i anfon at y person cofrestredig yn unol â rheol 6 neu o'r ymdrechion a wnaed i roi hysbysiad o'r gwrandawriad i'r person cofrestredig, ac
 - (b) yn holi a yw unrhyw resymau dros ddiffyg presenoldeb y person cofrestredig wedi'u cyfleu i Ofal Cymdeithasol Cymru.
- (2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, bydd y panel gorchmynion interim yn penderfynu a ddylai arfer y disgrisiwn o dan reoliad 36(4) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 i frw ymlaen â'r

gwrandawriad yn absenoldeb y person cofrestredig neu ohirio'r gwrandawriad ar ei ganol a rhaid iddo roi rhesymau dros y penderfyniad.

- (3) Dilynir y weithdrefn ganlynol mewn gwrandawriad panel gorchmynion interim:
- (a) bydd y cyflwynydd yn amlinellu ffeithiau'r achos ac yn amlinellu'r rhesymau pam y dylai cofrestriad y person cofrestredig fod yn ddarostyngedig i orchymyn interim, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol;
 - (b) caiff y person cofrestredig amlinellu'r rhesymau pam na ddylai'r panel ganiatáu cais o'r fath, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol;
 - (c) bydd y panel yn cael cyngor gan y cynghorydd cyfreithiol;
 - (d) bydd y panel yn cael cyngor gan y cynghorydd meddygol (os yw'n bresennol);
 - (e) bydd y panel yn trafod *in camera*;
 - (f) pan fo'r panel yn dyfarnu y dylid gosod gorchymyn cofrestru amodol interim, bydd y panel yn cyhoeddi'r amod(au) i'w cynnwys yn y gorchymyn hwnnw ac yn gwahodd y person cofrestredig neu gynrychiolydd y person cofrestredig (pan fo'n bresennol) a'r cyflwynydd i roi sylwadau ar eiriad yr amod(au) arfaethedig a gallu'r person cofrestredig i gydymffurfio, cyn i'r panel lunio geiriad yr amod(au) yn derfynol;
 - (g) bydd y panel yn dyfarnu ar y cais ac yn cyhoeddi ei benderfyniad, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, ym mhresenoldeb y partïon (pan fônt yn bresennol);
 - (h) pan fo achos yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, bydd y panel yn cyhoeddi ei benderfyniad, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, yn gyhoeddus.

Tystiolaeth

10. (1) Yn ddarostyngedig i reoliad 32(2) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, caiff panel dderbyn tystiolaeth lafar, tystiolaeth ddogfennol neu dystiolaeth arall.
- (2) Bydd cynhyrchu cofnod o rybuddiad yn dystiolaeth prima facie o'r ffeithiau wrth wraidd y drosedd sydd wedi arwain at y rhybuddiad.
- (3) O'i wirfodd, caiff panel ofyn i'r partïon ddarparu dogfennaeth neu dystiolaeth arall neu ofyn i unrhyw berson roi tystiolaeth lafar a allai, ym marn y panel, gynorthwyo â gwneud dyfarniad.

Tystion

11. (1) Rhaid i dystion dyngu llw neu ddwysaeru.
- (2) Ar gais y parti sy'n galw'r tyst, caiff panel gyuno na chaiff manylion personol y tyst eu datgelu'n gyhoeddus.
- (3) Yn ddarostyngedig i reoliad 35(12) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, bydd tystion yn cael eu holi gan y parti sy'n eu galw ac yna gallant gael eu croesholi gan y parti sy'n gwrthwynebu. Yna, caiff y parti sy'n galw'r tyst ail-holi'r tyst.
- (4) Yna, caiff tystion eu holi gan banel, neu gan y cynghorydd cyfreithiol, gyda chaniatâd y cadeirydd.

- (5) Yna, caiff y partïon holi'r tystion ynghylch materion sy'n deillio o gwestiynau'r panel. Y parti sy'n galw'r tyst fydd y diwethaf i holi'r tyst.
- (6) Bydd y gallu i holi tystion ymhellach yn ôl disgrisiwn y panel.
- (7) Ni chaniateir i dystion fynychu a gwyllo'r achos hyd nes byddant wedi gorffen rhoi tystiolaeth i banel a'u rhyddhau'n ffurfiol gan y cadeirydd.

Mesurau arbennig

- 12. (1) Pan fo panel gorchmynion interim yn rhoi cyfarwyddyd o dan reoliad 35(11) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, caiff y mesurau arbennig a weithredir neu a ddarperir gynnwys, ond ni fyddant yn gyfyngedig i:
 - (a) ddefnyddio cysylltiadau fideo;
 - (b) defnyddio tystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw fel tystiolaeth tyst;
 - (c) defnyddio sgriniau;
 - (d) defnyddio dehonglwyr (gan gynnwys arwyddwyr a chyfieithwyr) neu gyfryngwyr.

Gohirio'r gwrandawriad ar ei ganol

- 13. (1) Yn ddarostyngedig i ofynion gwrandawriad teg, ac wedi gwrandawrio ar gyflwyniadau gan y partïon, caiff panel, ar unrhyw adeg o'r gwrandawriad, ohirio'r achos ar ei ganol i ofyn am ragor o wybodaeth neu at unrhyw ddiben arall.
- (2) Pan fo'r gwrandawriad wedi'i ohirio ar ei ganol, bydd y clerwr, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn hysbysu'r partïon o'r dyddiad a ddewiswyd ar gyfer ailgychwyn y gwrandawriad.

Pleidleisio

- 14. (1) Gwneir penderfyniadau gan y panel ar sail mwyafrif syml.
- (2) Ni chaiff cadeirydd y panel gyflwyno pleidlais fwrw.
- (3) Ystyrir y bydd ymatal pleidlais yn bleidlais o blaid yr apelydd.

Trawsgrifiad o'r gwrandawriad

- 15. (1) Gwneir trefniadau ar gyfer cofnodi gwrandawriad gerbron panel.
- (2) Os gwneir cais, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn anfon trawsgrifiad at y person cofrestredig o'r cofnod, o unrhyw ran o'r achos yr oedd hawl gan y person cofrestredig fod yn bresennol ar ei gyfer.

Achos heb wrandawriad

- 16. (1) Pan fo'r amgylchiadau yn rheoliad 30(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn gymwys, bydd gofynion canlynol y rheol hon yn gymwys a bydd rheol 16 yn gymwys mewn perthynas â'r weithdrefn i'w dilyn

- (2) Bydd y clerch yn anfon hysbysiad o'r cyfarfod at y partïon:
 - (a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
 - (b) yn cynnwys yr holl ddogfennau i'w hystyried gan y panel, gan gynnwys:
 - (i) cytundeb ysgrifenedig y partïon y gellir dyfarnu ar y cais heb wrandawriad;
 - (ii) datganiad o ffeithiau cytûn, lle y mae'r person cofrestredig yn cytuno bod y sail/seiliau dros osod gorchymyn interim yn bodoli; a
 - (iii) cytundeb ysgrifenedig y partïon i'r gorchymyn interim a fydd yn cael ei wneud gan y panel, neu (mewn achos pan fo panel yn ystyried adolygiad o orchymyn interim) i'r penderfyniad y cyfeirir ato yn adran 147(1)(b) i (e) y Ddeddf a fydd yn cael ei wneud gan y panel, gan gynnwys:
 - (aa) y cyfnod y bydd y gorchymyn interim mewn grym; a
 - (bb) yn achos gorchymyn cofrestru amodol interim, yr amodau i'w gosod ar gofrestrriad y person cofrestredig gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.
- (3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) isod, pan fo hysbysiad o gyfarfod o dan baragraff (2) yn cael ei ddyroddi, bydd cais am orchymyn interim yn cael gwrandawriad heb fod yn gynt na saith niwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad o'r gwrandawriad i'r person cofrestredig.
- (4) Caiff y panel hepgor y cyfnod hysbysu y cyfeirir ato ym mharagraff (2) os bydd y panel wedi'i fodloni bod y budd i'r cyhoedd yn mynnu cyfnod hysbysu byrrach.
- (5) Bydd Rheol 17 yn gymwys hefyd lle y cyhoeddwyd Hysbysiad o Wrandawriad o dan Reol 7 ac y mae'r partïon yn cytuno yn ysgrifenedig y gellir dyfarnu ar y cais heb wrandawriad a bodlonir gofynion eraill paragraff (2)(b) (i), (ii) a (iii) y rheol hon.
- (6) Pan fo paragraff (5) y rheol hon yn gymwys, cynhelir y cyfarfod ar y dyddiad y trefnwyd cynnal gwrandawriad y Panel Gorchymynion Interim yn wreiddiol.

Y weithdrefn mewn cyfarfod

17. (1) Bydd y panel gorchymynion interim yn cyfarfod yn breifat ac yn cael cyngor gan gynghorydd cyfreithiol, ond ni fydd unrhyw barti yn bresennol.
- (2) Cadeirydd y panel fydd yn penderfynu ar y weithdrefn i'w dilyn.
- (3) Ar ôl ystyried y dogfennau perthnasol a chael cyngor cyfreithiol, bydd y panel yn ystyried a yw'n fodlon bod gofynion rheol 16(2)(b) (i) i (iii) (aa) a (bb) wedi'u bodloni.
- (4) Os yw'r panel wedi'i fodloni mewn perthynas â (3), bydd yn ystyried p'un a yw'n briodol gwneud y gorchymyn interim ar un neu fwy o'r seiliau a bennir yn adran 144(5) y Ddeddf, y mae'r partïon yn cytuno iddo/iddynt ac, os felly, bydd yn gwneud y gorchymyn interim dan sylw.
- (5) Os nad yw'r panel wedi'i fodloni ynghylch unrhyw fater yn (3) neu (4) uchod, neu os yw'r panel yn ystyried ei bod er cyfiawnder neu er budd y cyhoedd,

caiff y panel atgyfeirio'r cais i'w ystyried mewn gwrandawriad panel gorchmynion interim, yn unol â rheol 7.

- (5) Bydd y rheolau canlynol yn gymwys i gyfarfodydd paneli gorchmynion interim fel y maent yn gymwys i wrandawiadau paneli gorchmynion interim, sef rheol 8 (gohirio gwrandawriad); rheol 13 (gohirio'r gwrandawriad ar ei ganol) a rheol 14 (pleidleisio).

Hysbysiad o'r penderfyniad

18. (1) Cyn pen saith niwrnod o ddiwedd y gwrandawriad neu'r cyfarfod, bydd y clerwr yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at:
- (a) y person cofrestredig;
 - (b) yr achwynydd;
 - (c) y cyflogwr(wyr) os yw'n hysbys (os oes un/rhai);
 - (d) pan fo'r person cofrestredig wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y brifysgol.
- (2) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu:
- (a) Llywodraeth Cymru;
 - (b) corff rheoleiddiol am ei benderfyniad.
- (3) Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru hysbysu Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill yn yr Undeb Ewropeaidd o'r penderfyniad fel y bo'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb 2005/36/EC.
- (4) Bydd yr hysbysiad o'r penderfyniad i'r person cofrestredig:
- (a) yn cofnodi unrhyw gyngor a roddwyd gan y cynghorydd cyfreithiol neu'r cynghorydd meddygol;
 - (b) yn amlinellu penderfyniad y panel;
 - (c) yn pennu'r rhesymau dros benderfyniad y panel;
 - (d) pan osodir gorchymyn atal dros dro interim, yn amlinellu'r cyfnod atal dros dro, yn dechrau ar ddyddiad gwneud y gorchymyn;
 - (e) pan osodir gorchymyn cofrestru amodol interim, yn amlinellu hyd y gorchymyn a'r amod neu'r amodau y mae'n rhaid i'r person cofrestredig gydymffurfio â hwy;
 - (f) yn hysbysu'r person cofrestredig o'r hawl i apelio i'r tribiwnlys.

RHAN IV

GWRANDAWIADAU GORCHMYNION INTERIM ADDASRWYDD I YMARFER

Hysbysiad o'r gwrandawriad

19. (1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5) isod, pan fo achos wedi'i atgyfeirio i'r panel ar gyfer gwrandawriad ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn dymuno gwneud cais am orchymyn interim, anfonir hysbysiad at y person cofrestredig:
- (a) yn hysbysu'r person cofrestredig am yr hawl i fynychu'r gwrandawriad gerbron y panel;
 - (b) yn hysbysu'r person cofrestredig am amser a lleoliad y gwrandawriad;
 - (c) yn rhoi datganiad byr i'r person cofrestredig o'r materion yr ymddengys eu bod yn codi'r cwestiwn:
 - (i) a ddylid atal dros dro gofrestrriad y person cofrestredig neu a ddylai'r cofrestrriad fod yn ddarostyngedig i amodau; a
 - (ii) pham mae angen camau o'r fath i amddiffyn aelodau'r cyhoedd neu er budd y cyhoedd fel arall neu er budd y person cofrestredig;
 - (d) yn hysbysu'r person cofrestredig o'r hawliau i roi tystiolaeth yn bersonol, i alw tystion ac i groesholi unrhyw dystion a elwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru;
 - (e) yn hysbysu'r person cofrestredig o'r hawl i wneud cyflwyniadau llafar i'r panel yn bersonol neu i gael ei gynrychioli gan:
 - (i) gyfreithiwr neu gwmsler; neu
 - (ii) gynrychiolydd o unrhyw sefydliad proffesiynol; neu
 - (iii) os yw'r panel yn cytuno, unrhyw berson arall;
 - (f) yn hysbysu'r person cofrestredig y bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn breifat oni bai bod y person cofrestredig yn gofyn bod y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus a bod y panel o'r farn na fyddai gwneud hynny yn groes i fudd y cyhoedd;
 - (g) yn hysbysu'r person cofrestredig bod yn rhaid anfon unrhyw gais i gael ei gynrychioli gan berson heblaw'r rhai sydd wedi'u rhestru ym mharagraff (e) uchod at y clerc heb fod yn hwyrach na 48 awr cyn gwrandawriad, yn amlinellu enw'r cynrychiolydd arfaethedig, ei brofiad a/neu ei gymwysterau proffesiynol a chadarnhau na fydd y cynrychiolydd arfaethedig yn cael ei alw fel tyst;
 - (h) yn hysbysu'r person cofrestredig na chaiff person sy'n cynrychioli neu gynghori'r person cofrestredig roi tystiolaeth;
 - (i) yn hysbysu'r person cofrestredig y caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig heb fod yn hwyrach na 24 awr cyn dyddiad y gwrandawriad i'w hystyried gan y panel, os nad yw'n dymuno bod yn bresennol yn y gwrandawriad;
 - (j) yn hysbysu'r person cofrestredig am y canlyniadau posibl sydd ar gael i'r panel;
 - (k) yn gofyn am gadarnhad ynghylch a yw'r person cofrestredig yn bwriadu:
 - (i) mynychu'r gwrandawriad;
 - (ii) cael ei gynrychioli yn y gwrandawriad;
 - (iii) cyflwyno sylwadau ysgrifenedig;
 - (iv) cytuno y gellir dyfarnu ynghylch yr achos heb wrandawriad os bydd yr amgylchiadau yn rheoliad 18(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn gymwys;

- (l) yn amgáu copïau o unrhyw ddogfennau i'w rhoi gerbron y panel, gan gynnwys copi o'r Rheolau hyn.
- (2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4), (5) a (6) isod, pan fo hysbysiad o wrandawriad o dan baragraff (1) yn cael ei ddyroddi, bydd cais am orchymyn interim yn cael gwrandawriad heb fod yn gynt na saith niwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad o'r gwrandawriad i'r person cofrestredig.
- (3) Caiff y panel hepgor y cyfnod hysbysu y cyfeirir ato ym mharagraff (2) uchod os bydd y panel wedi'i fodloni bod y budd i'r cyhoedd yn mynnu cyfnod hysbysu byrrach.
- (4) Er paragraff (3) uchod, ni fydd y panel yn gosod gorchymyn interim ar gofrestrriad person cofrestredig heb roi hysbysiad o'r cyfryw fwriad i'r person cofrestredig yn gyntaf, fel y bo'n rhesymol yn holl amgylchiadau'r achos.
- (5) Pan fo achos yn cael ei ystyried gan banel er mwyn dyfarnu mewn perthynas ag addasrwydd y person cofrestredig i ymarfer, ond nid yw'r panel wedi gwneud dyfarniad yn unol ag adrannau 135 i 138 y Ddeddf, caiff y panel wneud gorchymyn interim, neu ei adolygu, pan na roddwyd hysbysiad yn unol â'r rheol hon.

Y weithdrefn mewn gwrandawriad gorchymynion interim panel addasrwydd i ymarfer

- 20. (1) Os na fydd y person cofrestredig yn bresennol ac os na chaiff ei gynrychioli yn y gwrandawriad, bydd y panel addasrwydd i ymarfer:
 - (a) yn gofyn am dystiolaeth bod hysbysiad o'r gwrandawriad wedi'i anfon at y person cofrestredig yn unol â rheol 19 neu o'r ymdrechion a wnaed i roi hysbysiad i'r person cofrestredig; ac
 - (b) yn holi a yw unrhyw resymau dros ddiffyg presenoldeb y person cofrestredig wedi'u cyfleu i Ofal Cymdeithasol Cymru.
- (2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, bydd y panel yn penderfynu a ddylai arfer y disgrisiwn o dan reoliad 25(4) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 i fwrw ymlaen â'r gwrandawriad yn absenoldeb y person cofrestredig neu ohirio'r gwrandawriad ar ei ganol a rhaid iddo roi rhesymau dros y penderfyniad.
- (3) Dilynir y weithdrefn ganlynol mewn gwrandawriad gorchymynion interim panel addasrwydd i ymarfer:
 - (a) bydd y cyflwynydd yn amlinellu'r rhesymau pam y dylai cofrestrriad y person cofrestredig fod yn ddarostyngedig i orchymyn interim, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol;
 - (b) caiff y person cofrestredig amlinellu'r rhesymau pam na ddylai'r panel ganiatáu cais o'r fath, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol;
 - (c) bydd y panel yn cael cyngor gan y cynghorydd cyfreithiol;
 - (d) bydd y panel yn cael cyngor gan y cynghorydd meddygol (os yw'n bresennol);
 - (e) bydd y panel yn trafod *in camera*;
 - (f) pan fo'r panel yn dyfarnu y dylid gosod gorchymyn cofrestru amodol interim, bydd y panel yn cyhoeddi'r amod(au) i'w cynnwys yn y gorchymyn hwnnw ac yn gwahodd y person cofrestredig neu gynrychiolydd y person cofrestredig (pan fo'n bresennol) a'r

- cyflwynydd i roi sylwadau ar eiriad yr amod(au) arfaethedig a gallu'r person cofrestredig i gydymffurfio, cyn i'r panel lunio geiriad yr amod(au) yn derfynol;
- (g) bydd y panel yn dyfarnu ar y cais ac yn cyhoeddi ei benderfyniad, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, ym mhresenoldeb y partion;
 - (h) pan fo achos yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, bydd y panel yn cyhoeddi ei benderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, yn gyhoeddus.
- (4) Bydd y rheolau canlynol yn gymwys i wrandawiadau gorchmynion interim panel addasrwydd i ymarfer fel y maent yn gymwys i wrandawiadau paneli gorchmynion interim, sef rheol 6 (rheoli achos); rheol 8 (gohirio gwrandawriad); rheol 9 (y weithdrefn); rheol 10 (tystiolaeth); rheol 11 (tystion); rheol 12 (mesurau arbennig); rheol 13 (gohirio'r gwrandawriad ar ei ganol); rheol 14 (pleidleisio); rheol 15 (trawsgrifiad o'r gwrandawriad); a rheol 18 (hysbysiad o benderfyniad).

Achos heb wrandawriad

21. (1) Pan fo'r amgylchiadau yn rheoliad 18(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn gymwys, bydd gofynion canlynol y rheol hon yn gymwys a bydd rheol 22 yn gymwys mewn perthynas â'r weithdrefn i'w dilyn.
- (2) Bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r cyfarfod at y partion:
- (a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
 - (b) yn cynnwys yr holl ddogfennau i'w hystyried gan y panel, gan gynnwys:
 - (i) cytundeb ysgrifenedig y partion y gellir dyfarnu ar y cais heb wrandawriad;
 - (ii) datganiad o ffeithiau cytûn, lle y mae'r person cofrestredig yn cytuno bod y sail/seiliau dros osod gorchymyn interim yn bodoli; a
 - (iii) cytundeb ysgrifenedig y partion i'r gorchymyn interim a fydd yn cael ei wneud gan y panel, neu (mewn achos pan fo panel yn ystyried adolygiad o orchymyn interim) i'r penderfyniad y cyfeirir ato yn adran 147(1)(b) i (e) y Ddeddf a fydd yn cael ei wneud gan y panel, gan gynnwys:
 - (aa) y cyfnod y bydd y gorchymyn interim mewn grym; a
 - (bb) yn achos gorchymyn cofrestru amodol interim, yr amodau i'w gosod ar gofrestrriad y person cofrestredig gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.
- (3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) isod, pan fo hysbysiad o wrandawriad o dan baragraff (2) yn cael ei ddyroddi, bydd cais am orchymyn interim yn cael gwrandawriad heb fod yn gynt na saith niwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad o'r gwrandawriad i'r person cofrestredig.
- (4) Caiff y panel hepgor y cyfnod hysbysu y cyfeirir ato ym mharagraff (2) os bydd y panel wedi'i fodloni bod y budd i'r cyhoedd yn mynnu cyfnod hysbysu byrrach.
- (5) Bydd Rheol 22 yn gymwys hefyd lle y cyhoeddwyd Hysbysiad o Wrandawriad o dan Reol 19 ac y mae'r partion yn cytuno yn ysgrifenedig y gellir dyfarnu ar y cais heb wrandawriad a bodlonir gofynion eraill paragraff (2)(b) (i), (ii) a (iii) y rheol hon.

- (6) Pan fo paragraff (5) y rheol hon yn gymwys, cynhelir y cyfarfod ar y dyddiad y trefnwyd cynnal gwrandawriad y Panel Gorchmynion Interim Addasrwydd i Ymarfer yn wreiddiol.

Y weithdrefn mewn cyfarfod

21. (1) Bydd y panel addasrwydd i ymarfer yn cyfarfod yn breifat ac yn cael cyngor gan gynghorydd cyfreithiol, ond ni fydd unrhyw barti yn bresennol.
- (2) Cadeirydd y panel fydd yn penderfynu ar y weithdrefn i'w dilyn.
- (3) Ar ôl ystyried y dogfennau perthnasol a chael cyngor cyfreithiol, bydd y panel yn ystyried a yw'n fodlon bod gofynion rheol 21(2)(b)(i) i (iii) (aa) a (bb) wedi'u bodloni.
- (4) Os yw'r panel wedi'i fodloni mewn perthynas â (3), bydd yn ystyried p'un a yw'n briodol gwneud gorchymyn interim ar un neu fwy o'r seiliau a bennir yn adran 144(5) y Ddeddf, y mae'r partïon yn cytuno iddo/iddynt ac, os felly, bydd yn gwneud y gorchymyn interim dan sylw.
- (9) Os nad yw'r panel wedi'i fodloni ynghylch unrhyw fater yn (3) neu (4) uchod, neu os yw'r panel yn ystyried ei bod er cyfiawnder neu er budd y cyhoedd, caiff y panel atgyfeirio'r cais i'w ystyried mewn gwrandawriad panel gorchmynion interim panel addasrwydd i ymarfer, yn unol â rheolau 19 ac 20.
- (10) Bydd y rheolau canlynol yn gymwys i gyfarfodydd gorchmynion interim panel addasrwydd i ymarfer fel y maent yn gymwys i wrandawiadau panel gorchmynion interim, sef rheol 8 (gohirio gwrandawriad); rheol 13 (gohirio'r gwrandawriad ar ei ganol); rheol 14 (pleidleisio) a rheol 18 (hysbysiad o benderfyniad).

RHAN V

ADOLYGIAD O ORCHMYNION INTERIM

Hysbysiad o'r gwrandawriad

23. (1) Pan fo angen adolygiad o orchymyn interim o dan adran 146 y Ddeddf, anfonir hysbysiad o wrandawriad at y person cofrestredig a fydd yn pennu dyddiad ar gyfer cynnal y gwrandawriad yn unol â'r amserlenni a bennir yn adrannau 146 (4), (6), (7) neu (8) y Ddeddf.
- (2) Bydd yr hysbysiad o dan baragraff (1):
- (a) yn hysbysu'r person cofrestredig o'r hawl i fynychu'r gwrandawriad;
 - (b) yn hysbysu'r person cofrestredig am amser a lleoliad y gwrandawriad;
 - (c) yn hysbysu'r person cofrestredig y caiff y panel, pan fo wedi cwblhau'r adolygiad, wneud un o'r penderfyniadau a bennir yn adran 147(1)(a) i (e) y Ddeddf;
 - (d) yn hysbysu'r person cofrestredig o'r hawliau i roi tystiolaeth yn bersonol, i alw tystion ac i groesholi unrhyw dystion a elwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru;
 - (e) yn hysbysu'r person cofrestredig o'r hawl i wneud cyflwyniadau llafar i'r panel yn bersonol neu i gael ei gynrychioli gan:
 - (i) gyfreithiwr neu gwmsler; neu
 - (ii) gynrychiolydd o unrhyw sefydliad proffesiynol; neu
 - (iii) os yw'r panel gorchymynion interim yn cytuno, unrhyw berson arall;
 - (f) yn hysbysu'r person cofrestredig y bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn breifat oni bai bod y person cofrestredig yn gofyn bod y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus a bod y panel o'r farn na fyddai gwneud hynny yn groes i fudd y cyhoedd;
 - (g) yn hysbysu'r person cofrestredig bod yn rhaid anfon unrhyw gais i gael ei gynrychioli gan berson heblaw'r rhai sydd wedi'u rhestru ym mharagraff (e) uchod at y clerc heb fod yn hwyrach na 48 awr cyn gwrandawriadl, yn amlinellu enw'r cynrychiolydd arfaethedig, ei brofiad a/neu ei gymwysterau proffesiynol a chadarnhau na fydd y cynrychiolydd arfaethedig yn cael ei alw fel tyst;
 - (h) yn hysbysu'r person cofrestredig na chaiff person sy'n cynrychioli neu gynghori'r person cofrestredig roi tystiolaeth;
 - (i) yn hysbysu'r person cofrestredig y caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig heb fod yn hwyrach na 24 awr cyn dyddiad y gwrandawriad i'w hystyried gan y panel, os nad yw'n dymuno bod yn bresennol yn y gwrandawriad;
 - (j) yn gofyn am gadarnhâd ynghylch a yw'r person cofrestredig yn bwriadu:
 - (i) mynychu'r gwrandawriad;
 - (ii) cael ei gynrychioli yn y gwrandawriad;
 - (iii) cyflwyno sylwadau ysgrifenedig;
 - (iv) cytuno y gellir dyfarnu ynghylch yr achos heb wrandawriad os bydd yr amgylchiadau yn rheoliad 18(1) neu 30(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn gymwys;
 - (k) yn amgáu copïau o unrhyw ddogfennau i'w rhoi gerbron y panel, gan gynnwys copi o'r Rheolau hyn.

Y weithdrefn mewn adolygiad o orchymyn interim

23. (1) Bydd y rheolau canlynol yn gymwys i achos i adolygu gorchymyn interim fel y maent yn gymwys i achos panel gorchymynion interim neu achos gorchymynion interim panel addasrwydd i ymarfer, yn ôl y digwydd, sef: rheol 6 (rheoli achos); rheol 8 (gohirio'r gwrandawriad); rheolau 9 ac 20 (y weithdrefn); rheol 10 (tystiolaeth); rheol 11 (tystion); rheol 12 (mesurau arbennig); rheol 13 (gohirio gwrandawriad ar ei ganol); rheol 14 (pleidleisio); rheol 15 (trawsgrifiad o'r gwrandawriad); rheolau 16 a 21 (achos heb wrandawriad); rheolau 17 a 22 (y weithdrefn mewn cyfarfod) a rheol 18 (hysbysiad o'r penderfyniad).

Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru



15 March 2018

.....
Arwel Ellis Owen
Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru

.....
Dyddiad